# Datganiad Diben

# Hosbis Caerdydd a'r Fro Marie Curie

| **1. Manylion Darparwyr Gwasanaeth** | |
|---|---|
| **Enw:** | **Marie Curie** |
| **Cyfeiriad Cofrestredig:** | Floor 8<br>1 Embassy Gardens<br>8 Viaduct Gardens<br>Llundain<br>SW11 7EW |
| **E-bost:** | info@mariecurie.org.uk |
| **Gwefan:** | www.mariecurie.org.uk |
| **Prif ffôn:** | 029 2042 6000 |

Mae Marie Curie yn sefydliad elusennol wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau sy'n codi arian er mwyn cynnig gofal a chymorth i bobl gyda salwch angheuol.

Wedi'i sefydlu yn 1948, rydym wedi bod yn gofalu am bobl sy'n byw gydag unrhyw salwch angheuol, a'u teuluoedd, ers dros 75 mlynedd. Rydym yn cynnig gofal, arweiniad a chefnogaeth arbenigol i'w helpu i gael y gorau o'r amser sydd ar ôl ganddynt.

Mae ein gwaith Gwasanaethau Gofalu yn cynnwys Gwasanaeth Nyrsio Marie Curie a naw hosbis yn y DU. Mae'r holl wasanaethau yn rhad ac am ddim.

Mae'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi yn cael eu cyfeirio atom gan y GIG ar gyfer seibiant, rheoli symptomau a gofal diwedd oes. Darperir hyn ddydd a nos gan Nyrsys Marie Curie a Chynorthwywyr Gofal Iechyd sydd wedi'u hyfforddi mewn gofal lliniarol.

| **2. Statws cyfreithiol y darparwr:** | |
|---|---|
| **Manylion y sefydliad:** | Sefydliad Corfforedig |
| **Rhif cwmni:** | 507597 |
| **Rhif elusen:** | 207994 |

| **3. Manylion lleoliad y gwasanaeth:** | |
|---|---|
| **Enw'r Gwasanaeth:** | **Hosbis Caerdydd a'r Fro Marie Curie** |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth:** | Heol Bridgeman Rd<br>Penarth<br>Bro Morgannwg<br>CF64 3YR |
| **E-bost:** | cardiff.hospice@mariecurie.org.uk |
| **Gwefan:** | http://www.mariecurie.org.uk |
| **Prif ffôn:** | 029 2042 6000 |
| **Defnyddwyr gwasanaeth:** | Oedolion (18+ oed) sydd â salwch angheuol a'u teuluoedd a'u gofalwyr |
| **Nifer y gwelyau:** | 20 |

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Cofrestredig:** | Samuel Clements (dros dro) |
| **Manylion cyswllt y Rheolwr Cofrestredig:** | Fel uchod (cyfeiriad y gwasanaeth) |

## 4. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

Mae Hosbis Caerdydd a'r Fro Marie Curie yn darparu gofal lliniarol arbenigol i oedolion sy'n byw gydag unrhyw salwch angheuol. Ein pwrpas yw hyrwyddo a chynnal yr ansawdd bywyd gorau posib a chynnig gofal diwedd oes o ansawdd uchel.

Rydym yn arbenigo mewn darparu gofal holistig unigol i bobl â salwch terfynol ac yn cynnig gofal a chymorth i gleifion sydd angen rheoli symptomau, cymorth seicolegol, adsefydlu a gofal diwedd oes. Yn ogystal â thîm o feddygon a nyrsys profiadol iawn, mae gan yr hosbis arbenigwyr mewn ystod eang o rolau gan gynnwys ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, gwaith cymdeithasol a chymorth profedigaeth.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau dydd yn ein hosbis ac mewn lleoliadau iechyd a chymunedol eraill ar gyfer ein cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r gymuned ehangach.  Mae'r rhain yn cynnwys therapïau cyflenwol, clinigau lles, caffis gofalwyr, caffis cymorth cymheiriaid, caffis profedigaeth a sesiynau cynllunio gofal uwch.

Trwy ein Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Profedigaeth Cymru rydym yn cynnig cymorth cyn ac ar ôl profedigaeth i unrhyw un sydd wedi cael ei effeithio gan salwch angheuol ledled Cymru.  Mae hyn yn cynnwys cwnsela profedigaeth gyda chwnselydd cymwys dros y ffôn, yn rhithiol neu wyneb-yn-wyneb (yn yr hosbis neu leoliad priodol arall).  Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth gan wirfoddolwyr hyfforddedig ar ffurf cymorth ffôn parhaus fel lle diogel i siarad a rhannu teimladau; a gwasanaeth Cydymaith Gwirfoddol yng nghartrefi pobl sy'n caniatáu i ofalwyr gymryd seibiant am hyd at 3 awr yr wythnos.

Mae’r rhan fwyaf o’n defnyddwyr gwasanaeth yn 18+ oed, ond rydym hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan ddiagnosis neu farwolaeth aelod o'r teulu o salwch angheuol, yn ogystal ag oedolion ifanc 16-18 oed fel rhan o wasanaeth gofal lliniarol trosiannol ar gyfer oedolion ifanc.

## 5. Cyfleusterau a Gwasanaethau Hosbis

Mae Marie Curie yn darparu gofal i unigolion sy'n byw gydag ystod eang o ddiagnosau terfynol, gan gynnwys canser, cyflyrau niwrolegol, clefyd y galon, clefydau anadlol cronig, clefyd yr arennau, clefyd yr afu, a dementia. Mae gwasanaethau'r elusen wedi'u teilwra i reoli symptomau fel poen, diffyg anadl, blinder a chyfog, tra hefyd yn cynnig cefnogaeth emosiynol a seicolegol i gleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r hosbis wedi'i lleoli ar heol Bridgeman Rd ger y promenâd ym Mhenarth. Mae sawl lle parcio ar dir yr hosbis ar gyfer cleifion a’u perthnasau. Ceir parcio ychwanegol cyfleus ar y stryd. Yr orsaf drenau agosaf yw Penarth (0.5 milltir o'r hosbis). Mae bysiau 92, 93, 94 a 95 yn teithio trwy Benarth.

Mae'r arhosfan bysiau agosaf ar Marine Parade sydd wedi'i leoli ychydig y tu allan i'r hosbis. Adnewyddwyd yr hosbis yn 2013 ac eto yn 2018. Mae'r cyfleusterau cleifion mewnol wedi'u lleoli dros ddau lawr unffurf: y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Mae pob un yn cynnwys dwy ward tri gwely, un ward pedair ystafell wely a phedair ystafell sengl. Er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion, tynnir llenni bob amser pan fyddant yn derbyn gofal neu driniaeth mewn bae aml-wely ac mae pob ward ar gyfer un rhywedd.

Yn ogystal, mae gan bob ystafell sengl gyfleusterau ystafell ymolchi ensuite i sicrhau preifatrwydd personol yn ystod yr amser ar gyfer ymdrochi a thoiled. Ceir cyfleusterau ystafell ymolchi a chawod breifat dynodedig ar gael yn agos at y wardiau ar gyfer cleifion mewn wardiau aml-wely, gan sicrhau bod ganddynt fynediad i fangre preifat ar gyfer eu hanghenion hylendid.

Mae'r hosbis yn gweithredu polisi cryf ar gynnal cyfrinachedd; mae aelodau staff wedi'u hyfforddi i drin gwybodaeth cleifion gyda disgresiwn, a chynhelir pob sgwrs am ofal cleifion mewn ardaloedd preifat er mwyn atal mynediad heb awdurdod at wybodaeth sensitif.

Hefyd, mae'r hosbis wedi sefydlu ystafell dawel a mannau preifat dynodedig ar gyfer ymgynghoriadau, gan ganiatáu i gleifion a'u teuluoedd gael trafodaethau cyfrinachol gyda darparwyr gofal iechyd heb ymyrraeth. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i greu amgylchedd cefnogol a pharchus, gan feithrin ymdeimlad o urddas a chysur i bob claf yn ystod eu harhosiad.

Mae'n ofynnol i ymwelwyr wirio yn y dderbynfa ble maent yn cael eu harwain er mwyn sicrhau'r aflonyddwch lleiaf posibl i gleifion eraill. Mae oriau ymweld wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg ond yn ystyriol, gan ganiatáu i deulu a ffrindiau dreulio amser gwerthfawr gyda'u hanwyliaid heb amharu ar breifatrwydd cleifion eraill.

Mae cyfleusterau ymwelwyr yn cynnwys llety dros nos ar wahân gyda chyfleusterau ensuite i deuluoedd, dwy ardal deulu ac ymwelwyr gyda chyfleusterau te a choffi ynghyd ag ystafelloedd cleifion gyda lle cysgu ychwanegol i aelod o'r teulu. Mae caffi hefyd ar gael yn yr hosbis sydd ar agor i gleifion, ymwelwyr, staff a'r cyhoedd o Ddydd Llun i Ddydd Gwener 9.30am-3.30pm.

Mae atgyfeiriadau arferol i'r Hosbis yn cael eu hadolygu'n ddyddiol (Dydd Llun i Ddydd Gwener) ac mae cleifion yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen. Mae atgyfeirwyr Gofal Lliniarol Arbenigol yn mynychu cyfarfod rhithwir dyddiol er mwyn brysbennu a blaenoriaethu atgyfeiriadau. Mae atgyfeiriadau brys yn cael eu cymryd unrhyw bryd ar ôl trafodaeth gyda'r meddygon ar-alwad a'r rheolwr gwelyau.

Rydym yn darparu ystafelloedd tawel i gleifion a theuluoedd, a gellir defnyddio'r rhain ar gyfer myfyrio preifat a/neu weddi hefyd. Ceir adnoddau aml-ffydd yn yr ystafelloedd yma sydd ar gael i'w defnyddio gan gleifion ac/neu ymwelwyr. Mae'r Cydlynydd Lles Ysbrydol hefyd yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol pe bai pobl yn dymuno cymorth, ac rydym yn rhoi cyfle i gleifion a gofalwyr gymryd rhan mewn unrhyw wasanaethau crefyddol yn unol â'u dymuniadau unigol.

Mae gan yr hosbis Hwb Llesiant a Chymorth sy'n darparu ystod o sesiynau er mwyn cefnogi cleifion, teuluoedd, gofalwyr yn ogystal â'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys ymarfer corff eistedd, therapïau cyflenwol, sesiynau cymorth dementia, caffis gofalwyr a gweithgareddau celf a chrefft.

## 6. Angen iaith a chyfathrebu i bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth

Mae Marie Curie wedi ymrwymo i ddarparu 'Cynnig Gweithredol' o wasanaethau Cymraeg i gefnogi fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r holl wybodaeth ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i weld a oes angen cyfieithydd neu weithiwr proffesiynol arall er mwyn i'r claf a'i ofalwyr sicrhau bod unrhyw anghenion cyfathrebu neu gymorth yn cael eu diwallu. Mae gan Marie Curie fynediad at Wasanaeth Cyfieithu Cymru a'r gwasanaeth teleffon cyfieithu ar y pryd 'Language Line'. Gennym lyfrynnau Hawdd ei Ddeall i arddangos gwybodaeth am ein gwasanaethau, yn ogystal â fideos iaith arwyddion.

## 7. Staffio

### 7a) Uwch-Dîm Arwain

**Andrew Wilson-Mouasher, Prif Swyddog Cyflenwi Gwasanaethau a Lleoedd** sy'n gyfrifol am Wasanaethau Marie Curie ledled y DU (sef yr Unigolyn Cyfrifol). Mae Andrew yn aelod o Dîm Arweinyddiaeth Weithredol Marie Curieac yn nyrs gofrestredig gyda dros 30 mlynedd o brofiad yn darparu a rheoli gwasanaethau arbenigol yn yr amgylchedd gofal lliniarol. Ynghyd â chymhwyster mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth mae gan Andrew flynyddoedd lawer o brofiad fel uwch reolwr gyda phrofiad gweithredol, strategol a gwella gwasanaethau.

**Rachel Jones, Cyfarwyddwr Cyswllt Partneriaethau Strategol a Gwasanaethau i Gymru** sy'n gyfrifol am holl Wasanaethau Marie Curie yng Nghymru ac mae'n hi'n aelod o Uwch Dîm Arwain y Gwasanaethau Gofalu. Ymunodd â Marie Curie ym mis Mehefin 2021. Yn flaenorol, cafodd Rachel ei secondio i Lywodraeth Cymru am 2.5 mlynedd fel Pennaeth Gwerthuso a Modelau Gofalu Newydd yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyn Llywodraeth Cymru, Rachel oedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd a Gofal Cymdeithasol - penodiad ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, a chyn hynny roedd ganddi nifer o rolau mewn llywodraeth leol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol dros gyfnod o 20 mlynedd. Graddiodd Rachel mewn Daearyddiaeth a ganddi Radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes. Rachel yw'r Unigolyn Cyfrifol enwebedig.

**Mae Dr Siwan Seaman** wedi bod yn **Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Lliniarol** yn hosbis Caerdydd a'r Fro ers 2014 ac mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Meddygol Marie Curie Cymru ers mis Ionawr 2024. Ganddi hefyd rôl arweinydd TG clinigol yn yr Hosbis ac mae'n cyd-reoli y gwasanaeth y tîm amlddisgyblaethol Motor Niwron ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae gwasanaethau clinigol (uned cleifion mewnol a gofal lliniarol arbenigol cymunedol) Hosbis Caerdydd a'r Fro dan arweiniad ymgynghorol Dr Seaman a dau gydweithiwr ymgynghorol mewn meddygaeth lliniarol (mae un o'r swyddi ymgynghorol hyn yn wag ar hyn o bryd). Darperir mewnbwn meddygol arall gan feddygon arbenigol, cofrestryddion

arbenigol mewn meddygaeth liniarol a meddygon iau eraill dan hyfforddiant (hyfforddeion meddygaeth mewnol a meddygon blwyddyn sylfaen).

**Melanie Andrews, Pennaeth Gweithrediadau Cymru**, sy'n gyfrifol am reoli gwasanaethau Hosbis a chymunedol ledled Cymru yn weithredol. Ymunodd Melanie â Marie Curie ym mis Medi 2023 ac mae ganddi brofiad helaeth o weithio fel Uwch Arweinydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac fel Ymgynghorydd ac Archwilydd Trydydd Sector.

**Samuel Clements, Pennaeth Ansawdd ac Ymarfer Clinigol Cymru** yw'r rheolwr Cofrestredig dros dro ac mae wedi gweithio yn Marie Curie ers dros ddeng mlynedd mewn nifer o rolau clinigol a rheoli. Ym mis Medi 2009, enillodd Samuel Radd Baglor mewn Gwyddoniaeth (Anrh.) a chofrestrodd gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel Nyrs Oedolion. Ym mis Awst 2019, diweddarodd Samuel ei gofrestriad, fel Presgripsiynydd Anfeddygol, ar ôl ennill cymhwyster ôl-raddedig mewn Asesu Cleifion Clinigol a Phresgripsiynu Rhagnodi Anfeddygol ac mae bellach ganddo Radd Meistr mewn Gwyddoniaeth mewn Ymarfer Uwch (Rhagoriaeth). Trwy gydol ei yrfa mae Samuel wedi ymddiddori mewn Oncoleg a Gofal Lliniarol Arbenigol, gyda ffocws pendant ar ofal sylfaenol, ac mae'n awyddus i sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

**Helen Cosh, Arweinydd Clinigol, Gwasanaethau Hosbis**, yw'r darpar Rheolwr Cofrestredig, wedi iddi gwblhau'r broses ymgeisio. Mae Helen wedi bod yn Nyrs Gofrestredig ers 20 mlynedd a thrwy gydol ei gyrfa mae wedi gweithio mewn rolau clinigol a rheolaethol yn yr arbenigedd Haematoleg / Oncoleg. Yn 2004 enillodd Baglor mewn Nyrsio (Anrh.) o Brifysgol Lerpwl. Yn 2024 derbyniodd Ddiploma Ôl-Raddedig mewn Ymarfer Uwch gyda theilyngdod o Brifysgol Caerdydd ac mae'n gweithio ar gwblhau Meistr Gwyddoniaeth mewn Ymarfer Uwch. Mae prif ddiddordebau Helen yn cynnwys gwella gwasanaethau ac arloesi ym maes iechyd i gynhyrchu gofal cleifion o ansawdd uchel.

Gellir gweld y Strwythur Sefydliadol yn **Atodiad A**

## 7b) Lefelau Staff

Cefnogir yr Arweinydd Clinigol, Gwasanaethau Hosbis gan dîm clinigol hynod gymwys o Nyrsys Cofrestredig, Cynorthwywyr Gofal Iechyd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd arbenigol. Mae'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r Arbenigwyr Nyrsio Clinigol Lliniarol yn y gymuned; yng nghartrefi pobl a lleoliadau priodol sy'n galluogi darparu gofal a chymorth ar sail un i un neu ar ffurf grwpiau.

Ceir **27.91 Nyrs Gofrestredig cyfwerth ag amser cyflawn.** Mae hyn yn cynnwys:

- 1 cyfwerth ag amser cyflawn x Band 7
- 3 cyfwerth ag amser cyflawn x Band 6
- 23.91 x Band 5

Y sefydliad **Cynorthwyydd Gofal Iechyd** yw **15.73 cyfwerth ag amser cyflawn.** Mae hyn yn cynnwys:

- 15.73 x Band 2

Y sefydliad **Proffesiynol Perthynol i Iechyd** yw **9.1 cyfwerth ag amser cyflawn** ac mae'n cynnwys:

- 1 cyfwerth ag amser cyflawn x Rheolwr Band 7 AHP
- 1.6 cyfwerth ag amser cyflawn x Ffisiotherapydd Band 6
- 1.6 cyfwerth ag amser cyflawn x Therapydd Galwedigaethol Band 6
- 0.8 cyfwerth ag amser cyflawn x Technegydd Adsefydlu Band 4
- 1.5 cyfwerth ag amser cyflawn x Gweithiwr CymdeithasolBand 6
- 1 cyfwerth ag amser cyflawn x Cwnselydd Profedigaeth Band 6
- 1 cyfwerth ag amser cyflawn x Cwnselydd Band 5
- 0.6 cyfwerth ag amser cyflawn x Cydlynydd Gofal Ysbrydol Band 6

Mae ein holl staff a'n gwirfoddolwyr yn cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ynghyd â chyfeiriadau a rhaglen gynefino gynhwysfawr.

Mae rheolwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain ac yn cael cymorth priodol parhaus. Maent yn gyfrifol am adolygu perfformiad yn rheolaidd a nodi anghenion hyfforddi a datblygu parhaus trwy broses arfarnu staff Marie Curie. Mae cynlluniau hyfforddi unigol yn sicrhau bod y sgiliau a'r lefelau cymhwysedd sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn cael eu cynnal a'u datblygu.

Mae Nyrsys Marie Curie yn cyflogi Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar lefel gradd neu radd meistr, a gan lawer ohonynt gymwysterau gofal lliniarol ychwanegol. Mae gan y rhan fwyaf o Gynorthwywyr Gofal Iechyd NVQ 2 neu NVQ 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae gan y Cwnselwyr Profedigaeth naill ai radd neu ddiploma lefel 4 mewn cwnsela.

Mae gwirfoddolwyr hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gwaith yr hosbis. Mae'r holl wirfoddolwyr yn mynd trwy broses ddethol a hyfforddiant cyn dechrau swydd a derbyn goruchwyliaeth reolaidd.

## 8. Adborth Hosbis ar Ansawdd y Gwasanaeth

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn ceisio adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r adborth hwn yn hanfodol gan ei fod yn ein helpu i ddeall anghenion, dewisiadau a phrofiadau'r rhai rydym yn eu cefnogi, gan ein galluogi i wella ansawdd ein gofal yn barhaus.

Mae gan gleifion a theuluoedd nifer o gyfleoedd i roi eu hadborth. Gallant gwblhau un o'n harolygon, sydd ar gael mewn sawl fformat i sicrhau hygyrchedd i bawb. Mae'r arolygon hyn ar gael fel cardiau sylwadau a roddir mewn gwahanol leoliadau yn yr hosbis, ar ddyfeisiau tabled sy'n hawdd eu cyrraedd trwy ein cyfleusterau, ac ar ein gwefan i'r rhai y mae'n well ganddynt roi adborth ar-lein.

Yn ogystal ag arolygon ysgrifenedig, rydym yn annog cyfathrebu uniongyrchol. Gall cleifion a'u teuluoedd siarad ag unrhyw aelod o'n staff i rannu eu profiadau, pryderon neu awgrymiadau. Mae ein staff wedi'u hyfforddi i drin adborth yn sensitif ac adeiladol, gan sicrhau bod pob sylw yn cael ei glywed a'i werthfawrogi. Cefnogir tîm yr hosbis hefyd gan wirfoddolwr adborth ymroddedig sy'n mynychu'r hosbis yn wythnosol, prif ffocws y gwirfoddolwr hwn yw casglu adborth gwerthfawr, gan alluogi gwella ansawdd.

Mae'r arolygon eu hunain wedi'u cynllunio i fesur gwahanol elfennau o ofal hosbis yn gynhwysfawr. Maent yn cynnwys cwestiynau am yr amgylchedd, fel glendid a chysur ein cyfleusterau. Maent hefyd yn asesu lefelau cyfranogiad, gan ofyn i gleifion a theuluoedd sut maent yn teimlo yn y broses ofal a gwneud penderfyniadau. Ar ben hynny, mae'r arolygon yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar ofal a chymorth, gwerthuso effeithiolrwydd a thosturi y cymorth meddygol ac emosiynol a ddarparwyd.

Trwy gasglu adborth manwl drwy'r dulliau hyn, gallwn nodi cryfderau i adeiladu arnynt ac unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn ein galluogi i deilwra ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein cleifion a'u teuluoedd yn well, gan sicrhau ein bod yn darparu'r gofal o'r safon uchaf posibl.

## 9. Delio â Chwynion

Mae ein polisi ar gyfer mynd i'r afael â chwynion yn sicrhau y bydd pob achwynydd yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn **dau ddiwrnod gwaith** oni bai y gellir anfon ateb llawn o fewn **pum diwrnod gwaith**. Gwneir pob ymdrech i ddarparu ymateb llawn i'r achwynydd o fewn **20 diwrnod gwaith**. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr achwynydd yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y rheswm dros yr oedi a bydd ymateb llawn yn cael ei wneud o fewn pum niwrnod i ddiwedd yr ymchwiliad.

Mae staff yr hosbis yn ysbeidiol yn cynnal cyfweliadau, a grwpiau ffocws, gyda chleifion a gofalwyr am eu profiadau o'r gofal y maent wedi'i dderbyn.

Rydym yn cynnal arolygiadau mewnol sydd wedi'u cyhoeddi ac yn ddirybudd, a cheisir barn cleifion a gofalwyr hefyd i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau y maent eu heisiau a'u hangen.

Mae manylion y prosesau hyn wedi'u hymgorffori yn ein taflenni gwybodaeth i gleifion sy'n cael eu cynnig i'r holl gleifion sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth. Mae manylion hefyd wedi'u cynnwys mewn ffolderi cleifion wrth ochr y gwely a ddarperir i bob claf.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn am broses gwynion Marie Curie ar y dudalen hon hefyd.

Os nad yw'r achwynydd yn dymuno trafod ei bryder gyda'r tîm yng Nghymru, gellir amlygu cwynion drwy unrhyw un o'r opsiynau canlynol:

**Ffôn:** Llinell Gymorth Marie Curie - **0800 090 2309**
(Ar agor 8am – 6pm o Ddydd Llun iDdydd Gwener, a 11am – 5pm ar Ddydd Sadwrn)

**Post:** Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr Marie Curie
One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens
Llundain
SW11 7BW

**Ffurflen ar-lein:** www.mariecurie.org.uk/who/feedback/comments-complaints

Ein nod bob amser yw datrys pob pryder a chwyn. Fodd bynnag, dangosir manylion cyswllt ein rheoleiddiwr, **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**, isod pe bai'r achwynydd yn teimlo nad ydym wedi mynd i'r afael â'u pryder:

**Gwefan AGIC:** https://www.agic.org.uk
**Tudalen 'cysylltwch â ni'** https://www.agic.org.uk/cysylltwch-ni
**Tudalen 'chwythu'r chwiban' HIW a dogfennau cysylltiedig:**
https://www.agic.org.uk/chwythur-chwiban-codi-pryderon-am-ofal-iechyd-yng-nghymru


**Cyfeiriad prif swyddfa AGIC:**
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Parc Busnes Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful,
CF48 1UZ

**Rhif cyswllt AGIC:** 0300 062 8163.
Mae llinellau ffôn ar agor rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun i Ddydd Iau a 9am – 4.30pm ar Ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus)

**Cyfeiriad e-bost AGIC:** agic@llyw.cymru

| | |
|---|---|
| **Datganiad Diben wedi'i ddiweddaru** | Mai 2024 |
| **Dyddiad Adolygu'r Datganiad Diben** | Mai 2025 |

# Atodiad A – Strwythur Sefydliadol




Mai 2024